EISTEDDFOD

## Is-gadeirydd Strategol y Pwyllgor Gwaith

Rydyn ni'n chwilio am unigolyn lleol sydd â phrofiad o gydweithio'n agos gyda grwpiau ac unigolion ar bob lefel i weithredu fel Is-gadeirydd Strategol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2026, a gynhelir yn ardal de orllewin Cymru.

Byddwch yn adnabod ac yn deall cymunedau dalgylch yr Eisteddfod (Sir Benfro, de Ceredigion a rhannau o Sir Gâr), ac yn deall a gwerthfawrogi'r heriau a'r cyfleoedd mae cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn lleol yn eu cynnig.

Bydd gennych ddealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a'r celfyddydau'n gyffredinol, a diddordeb yng ngwaith yr Eisteddfod a gwyliau cyffelyb eraill.

Byddwch yn teimlo'n gyfforddus yn trin a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Eisteddfod yn ein hiaith. Byddwch hefyd yn cefnogi amcanion Cymraeg 2050 i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'n hiaith erbyn 2050.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda Chadeirydd y Gronfa Leol er mwyn creu a chefnogi'r rhwydwaith o bwyllgorau lleol ar draws y dalgylch drwy gydol y prosiect.

Bydd disgwyl i chi gefnogi'r Cadeirydd a bod yn barod i ymweld â chymunedau a grwpiau ar draws y sir i gefnogi ein gwaith ac ymgyrchoedd ar lawr gwlad yn y cyfnod hyd at yr Eisteddfod.

Byddwch yn deall ac yn awyddus i sicrhau bod yr Eisteddfod yn gadael gwaddol ieithyddol, diwylliannol, cymunedol ac economaidd ar ei hôl, ac yn rhan o'r tîm sy'n arwain ein gwirfoddolwyr yn lleol er mwyn sicrhau hyn.

Mae hon yn rôl wirfoddol am gyfnod penodol tan Awst 2026.

Ymhlith y cyfrifoldebau mae:

- Cefnogi Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith i arwain a llywio gwaith ein gwirfoddolwyr lleol, cefnogi tîm craidd yr Eisteddfod yn lleol yn ystod y prosiect cymunedol ac wrth baratoi ar gyfer yr ŵyl;
- Cadeirio'r Bwrdd Strategol lleol, sy'n arwain ar godi ymwybyddiaeth ac arian, marchnata a phrofiad ymwelwyr, gwirfoddolwyr, gwaddol, datblygu cymunedol, addysg ayb;
- Gweithio gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cronfa Leol, gan gefnogi ein grwpiau a'n gwirfoddolwyr meicro-leol i drefnu digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a chodi arian, annog a grymuso grwpiau lleol i estyn allan i holl aelodau'r gymuned;
- Gweithio gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol i adnabod a denu noddwyr corfforaethol posibl;
- Cynrychioli prosiect 2026 yn lleol gan gymryd rhan mewn sgyrsiau a chyflwyniadau ar draws y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth a chefnogi'r gwaith.

## Sut i ymgeisio

Mae modd enwebu eich hun neu unigolyn cymwys arall fel Is-gadeirydd Strategol Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol 2026. Bydd yr enwebiadau'n cael eu gwirio gan banel enwebiadau'r Eisteddfod er mwyn sicrhau bod pawb yn cyrraedd y meini prawf uchod.

Yna, bydd Grŵp Llywio Eisteddfod 2026 yn bwrw pleidlais er mwyn ethol yr Is-gadeirydd, a fydd yn cychwyn ar eu gwaith yn Nhachwedd 2024.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau ac enwebiadau gan unigolion sy'n hyderus wrth drafod yn y Gymraeg, yn siaradwyr profiadol a newydd, gyda sgiliau amrywiol penodol.  Rydyn ni hefyd yn awyddus i ddenu

unigolion o garfannau nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli ar ein pwyllgorau ar hyn o bryd, gan gynnwys ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

Dyddiad cau: 19 Hydref 2024

Angen rhagor o wybodaeth? Ebostiwch gwenllian@eisteddfod.cymru

EISTEDDFOD

## Deputy-chair (Strategy) of the Executive Committee

We're looking for a local person with experience of working closely with groups and individuals at all levels to act as Deputy-chair (Strategy) of the Executive Committee for the 2026 National Eisteddfod, to be held in the Wrexham area.

You'll know and understand the communities of the Eisteddfod catchment area (Pembrokeshire, south Ceredigio and parts of Carmarthenshire) and understand and appreciate the challenges and opportunities that hosting the National Eisteddfod locally can bring.

You'll understand Welsh culture and the arts in general, and an interest in the work of the Eisteddfod and other similar festivals.

You'll feel comfortable discussing Eisteddfod matters in Welsh and you'll also be a strong supporter of the aims of Cymraeg 2050 to see one million Welsh speakers and double the daily use of our language by 2050.

You'll work closely with the Chair of the Local Fund to create and support the network of local committees across the region throughout the project.

You'll support the Chair and be prepared to visit communities and groups across the county to support our work and grassroots campaigns in the lead up to the Eisteddfod.

You'll understand and want to ensure that the Eisteddfod leaves behind a linguistic, cultural, community and economic legacy, and will lead our volunteers locally to deliver this.

This is a voluntary position until August 2026.

Responsibilities include:

- Supporting the Chair of the Executive Committee to lead and guide the work of the local volunteers, supporting the core Eisteddfod team locally during the community project and preparing for the festival;
- Chairing the local Strategy Board, leading on raising awareness and funds, marketing and visitor experience, volunteering, legacy, community development, education etc.
- Working with the Chair of the Local Fund Committee, supporting our micro-local committee groups and volunteers to organise awareness-raising and fundraising events, encouraging and empowering local groups to reach out to all members of the community;
- Working with the Executive Committee Chair, Chief Executive and Strategic Director in identifying and attracting potential corporate sponsors;
- Representing the 2026 project publicly, taking part in talks and presentations across the region to raise awareness and support the work.

## How to apply

You can either nominate yourself or someone you'd like to see as Deputy-chair (Strategy). Nominations will be checked by the Eisteddfod's Nominations Panel, to make sure they're all eligible to apply. The 2026 National Eisteddfod Steering Group will then vote to elect the Deputy-chair (Strategy), with the work beginning in November 2024.

Closing date: 19 October 2024

Need more information? Email gwenllian@eisteddfod.cymru